

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif. 3) 2021

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif. 3) 2021. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
26 Awst 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i estyn hyd y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws (2020) ("y Ddeddf"), lle y gwaherddir gorfodi'r hawl i ailfyndiad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu'r rhent, drwy weithredu neu fel arall.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn ôl Llywodraeth y DU¹, mae Ffederasiwn Eiddo Prydain (BPF) yn amcangyfrif y bydd £7.5 biliwn o ôl-ddyledion rhent masnachol ledled y DU erbyn 30 Mehefin 2021. Mae Remit Consulting yn amcangyfrif bod £5.3 biliwn o rent masnachol dyledus ers mis Mawrth 2020 heb ei dalu ar 30 Mawrth, ac roedd hanner o'r swm hwn (£2.8 biliwn) yn y sector manwerthu.

Yn ogystal, mae'r data diweddaraf ar gyfer y DU yn dangos bod taliadau rhent lletygarwch yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd, gyda dim ond 23.6% o'r rhent yn cael ei dalu yn y sector tafarndai, bariau a bwytai 35 diwrnod ar ôl dyddiad talu mis Mawrth. Er mai ar gyfer y DU gyfan mae'r ystadegau, mae cyfran o'r data hyn yn ymwneud â Chymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd Adran 82 o Ddeddf Coronafeirws 2020, sy'n atal landlordiaid tenantiaethau busnes perthnasol rhag troi tenantiaid allan am beidio â thalu'r rhent, yn parhau tan 25 Mawrth 2022 yn Lloegr, oni bai bod deddfwriaeth yn cael ei phasio cyn hyn. Disgwylir y bydd hyn yn rhoi digon o amser i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent masnachol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid a thenantiaid gytuno ar y ffordd yr ymdrinnir â rhent masnachol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig, a chyflwyno system o gyflafareddu rhwymol lle nad yw tenantiaid a landlordiaid yn gallu cytuno. Mae rhagor o wybodaeth am gynigion Llywodraeth y DU a mesurau eraill y mae Llywodraeth y DU wedi'u rhoi ar waith yn ei datganiad polisi sydd ar gael [yma](#).

Drwy estyn diwedd y "cyfnod perthnasol", fel y'i diffinnir gan adran 82(12) o Ddeddf Coronafeirws 2020, mewn perthynas â Chymru tan 25 Mawrth 2022, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i weithio i ystyried ac wedyn, lle bo angen, gweithredu mesurau mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau nad yw busnesau Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais i'r busnesau hynny yn Lloegr, ac yn helpu busnesau Cymru i adfer wrth i'r economi wella.

Gan fod Cymru bellach ar lefel rhybudd sero cynllun rheoli'r coronafeirws, rhaid cadw nifer y busnesau sydd dan fygythiad uniongyrchol o gael eu troi allan o'u heiddo yn isel wrth i'r economi ddechrau gwella. O ganlyniad, daw'r Rheoliadau

¹ [Cefnogi busnesau sydd â dyledion rhent masnachol: datganiad polisi - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

hyn i rym ar 30 Medi 2021 er mwyn sicrhau nad oes bwlch yn y warchodaeth a roddir i denantiaid. Mae gwneud y penderfyniad hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb priodol mewn perthynas â'r mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig, gyda'r nod o sicrhau y gellir ystyried ateb tymor hwy ar gyfer ôl-ddyledion rhent a, lle bo angen, ei weithredu.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth sy'n gwahardd gorfodi'r hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu'r rhent, drwy weithredu neu fel arall, yn ystod y "cyfnod perthnasol". Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "cyfnod perthnasol" fel y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn rheoliadau. Gellir arfer y pŵer i bennu dyddiad diweddarach mwy nag unwaith er mwyn estyn y "cyfnod perthnasol" ymhellach".

Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" mewn perthynas â Chymru, ac felly cânt wneud rheoliadau i estyn y "cyfnod perthnasol" ar gyfer gwarchodaethau y tu hwnt i 30 Mehefin 2020, gan gynnal y warchodaeth a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf tan ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd, Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 yn ymestyn y "cyfnod perthnasol" tan 30 Medi 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn gweithdrefn negyddol y Senedd.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y Rheoliadau yw pennu y bydd y "cyfnod perthnasol", fel y'i diffinnir gan adran 82(12) o'r Ddeddf, mewn perthynas â Chymru yn dod i ben ar 25 Mawrth 2022.

Effaith y Rheoliadau yw estyn diwedd y "cyfnod perthnasol" lle y gwaherddir gorfodi'r hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu'r rhent, drwy weithredu neu fel arall, mewn perthynas â Chymru tan 25 Mawrth 2022.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

5. Yr Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud dim – Gadael i'r ddarpariaeth sy'n gwarchod tenantiaid masnachol rhag cael eu troi allan am beidio â thalu'r rhent ddod i ben ar 30 Medi 2021.

Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau i estyn y warchodaeth am dri mis arall tan 31 Rhagfyr 2021.

Opsiwn 3: Gwneud Rheoliadau i estyn y warchodaeth am bron i chwe mis arall i 25 Mawrth 2022.

Costau a manteision

Mae goblygiadau ariannol posibl yn gysylltiedig â phob opsiwn. Gydag Opsiynau 2 a 3 efallai y bydd pwysau cynyddol ar Weinidogion Cymru i roi cymorth ariannol ychwanegol i landlordiaid masnachol yn ystod y cyfnod hwn i dalu am y warchodaeth a roddir i denantiaid. Bwriad ymestyn y warchodaeth yw ategu adferiad yr economi drwy geisio sicrhau bod busnesau'n gallu parhau i fasnachu.

Fodd bynnag, ategir yr asesiad gan ddata o [Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes \(BICS\) gwirfoddol bob pythefnos](#). Fe'i cynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), sy'n casglu barn busnesau ar effaith y coronafeirws (COVID-19) ar drosiant, prisiau, y gweithlu, masnach a chydnerthedd busnes.

Mae Atodiad A yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr arolwg a dylid edrych ar y canfyddiadau yng nghyd-destun y wybodaeth hon. Er bod y data'n gymharol cyfredol, dylid nodi bod sefyllfa COVID-19 yn newid yn gyflym, ac felly gall negeseuon allweddol yr arolwg ddyddio'n gyflym iawn. Hefyd, nid yw'r arolwg yn ystyried y dyfodol, felly nid ymdrinnir ag amodau ac effeithiau ar fusnesau yn y dyfodol.

Opsiwn 1: Gwneud dim – Gadael i'r ddarpariaeth sy'n gwarchod tenantiaid masnachol rhag camau fforffedu am beidio â thalu'r rhent ddod i ben ar 30 Medi 2021.

Drwy wneud dim, bydd y warchodaeth yn dod i ben, ac o ganlyniad mae risg uwch y gallai tenantiaid masnachol gael eu troi allan o'u heiddo am beidio â thalu'r rhent. Gan mai prif nod y ddeddfwriaeth wreiddiol oedd diogelu tenantiaid masnachol a swyddi, byddai dileu'r warchodaeth bresennol yn rhoi'r tenantiaid masnachol hynny, y gall rhai ohonynt fod wedi derbyn cymorth ariannol gan Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU, mewn perygl uwch wrth i'r economi adfer.

Un o ganlyniadau'r opsiwn hwn yw y bydd landlordiaid masnachol yn rhydd i gymryd camau yn erbyn tenantiaid am beidio â thalu'r rhent. Bydd hyn yn arwain naill ai at denantiaid masnachol yn talu'r holl rent sy'n ddyledus, neu rhan ohono, neu at achosion fforffedu. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, byddai angen i landlordiaid ystyried yn ofalus a fyddent yn elwa'n ariannol, gan ei bod yn bosibl na fydd tenantiaid yn gallu gwneud y taliadau sy'n ddyledus beth bynnag. Gall fod yn anodd dod o hyd i denant newydd, neu werthu'r eiddo, gan fod y galw am ofod masnachol mewn rhai sectorau (e.e. hamdden, manwerthu a lletygarwch) yn debygol o fod wedi gostwng, o leiaf yn y tymor byr.

Mae canlyniadau Cam 35 yr Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes yn cynnwys y cyfnod rhwng **12 Gorffennaf a 25 Gorffennaf 2021**. Mae'n dangos, o'r busnesau nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol, fod 51.9% o fusnesau yng Nghymru yn defnyddio neu'n bwriadu defnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (y Cynllun Cadw Swyddi), o'u cymharu â 52.8% o fusnesau yn yr Alban, 51.5% yng Ngogledd Iwerddon a 47.7% yn Lloegr.

Mae busnesau yng Nghymru wedi defnyddio amrediad eang o gynlluniau llywodraeth yn ystod yr argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grantiau busnes wedi'u hariannu gan Lywodraethau'r DU a'r Llywodraethau datganoledig;
- Benthyciadau achrededig neu gytundebau cyllid a gefnogir gan y Llywodraeth; a
- Cynllun Swyddi Kickstart i bobl ifanc yn ogystal â'r Cynllun Cadw Swyddi.

O'r busnesau nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol, nid yw 35.5% o'r rhai sy'n gweithredu yng Nghymru yn defnyddio, nac yn bwriadu defnyddio, yr un o'r cynlluniau neu'r cymhellion a gefnogir gan y Llywodraeth. Mae hyn o'i gymharu â 40.4% yn Lloegr, 35.9% yng Ngogledd Iwerddon a 36.1% yn yr Alban. Hefyd, o'r busnesau nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol ac sydd wedi gwneud cais am grant gan y Llywodraeth yng Nghymru, ni dderbyniodd 3.7% y grant. Mae hyn o'i gymharu â 2.7% yng Ngogledd Iwerddon, 4.4% yn yr Alban a 4.8% yn Lloegr.

Y casgliad yw y byddai Opsiwn 1 yn rhoi busnesau Cymru o dan anfantais o'u cymharu â busnesau yn Lloegr, lle mae'r warchodaeth o dan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 ar hyn o bryd yn para tan 25 Mawrth 2022. Byddai hyn hefyd yn gadael busnesau Cymru i ddelio â diwedd y Cynllun Cadw Swyddi ar yr un pryd ag y mae'r warchodaeth rhag fforffediad yn dod i ben, ac ni fyddai'n cyflawni'r amcan polisi i helpu busnesau a diogelu tenantiaid masnachol rhag fforffediad yn ystod pandemig y Coronafeirws.

Opsiwn 2 – Gwneud Rheoliadau i estyn y warchodaeth am dri mis arall tan 31 Rhagfyr 2021.

Mae coronafeirws wedi lleihau gweithgarwch economaidd, gan arwain at ostyngiad mewn incwm i lawer o fusnesau. Mae'r Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes yn dangos y canlynol:

- Nododd 11.6% o fusnesau yng Nghymru fod eu trosiant wedi gostwng y tu allan i'r ystod arferol. Mae hyn o'i gymharu ag 13.8% yn yr Alban, 14.6% yn Lloegr a 9.6% yng Ngogledd Iwerddon.
- Ar draws yr holl fusnesau sy'n masnachu yng Nghymru ar hyn o bryd, datganodd 5.6% fod eu helw wedi gostwng mwy na 50% a dywedodd 7.3% fod eu helw wedi gostwng rhwng 20–50%.
- Y ganran o fusnesau yng Nghymru a chanddynt arian wrth gefn ar gyfer mwy na chwe mis oedd 42.1%. Mae hyn o'i gymharu â 46.9% yn yr Alban, 42.4% yn Lloegr a 43.3% yng Ngogledd Iwerddon.

- Roedd gan 37.3% o fusnesau yng Nghymru arian wrth gefn ar gyfer llai na chwe mis (2.5% heb unrhyw arian wrth gefn), o'i chymharu â 34.7% (2.4% heb unrhyw arian wrth gefn) yn yr Alban, 40.1% (4% heb unrhyw arian wrth gefn) yn Lloegr a 32.2% (2.9% heb unrhyw arian wrth gefn) yng Ngogledd Iwerddon

Ansolfedd:

Yng Nghymru, o'r busnesau nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol:

- Roedd 9.4% mewn risg gymedrol o ansolfedd
- Roedd 53.6% mewn risg isel o ansolfedd
- Nid oedd 28.5% mewn unrhyw risg o ansolfedd

Hyder busnes:

Yng Nghymru, o'r busnesau sy'n masnachu ar hyn o bryd:

- Dywedodd 65.5% eu bod yn hyderus iawn y byddent yn goroesi'r tri mis nesaf;
- Dywedodd 28.5% eu bod yn weddol hyderus y byddent yn goroesi'r tri mis nesaf.

Gwariant cyfalaf

Yn ôl pob golwg mae pandemig y coronafeirws (COVID19) hefyd wedi effeithio ar wariant cyfalaf busnesau yng Nghymru. O'r holl fusnesau sy'n parhau i fasnachu yng Nghymru, dywedodd 5.9% fod eu gwariant cyfalaf wedi dod i ben, a dywedodd 15.5% fod gwariant cyfalaf wedi bod yn is na'r arfer.

Bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru barhau i warchod tenantiaid masnachol yn ystod cyfnod parhaus o ansicrwydd, ond ar yr un pryd heb ddileu'n ormodol yr hawliau a'r rhwymedïau sy'n galluogi landlordiaid i gymryd camau am fethu talu rhent. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi'r un warchodaeth ag i fusnesau yn Lloegr, ac ni fyddai'n rhoi digon o amser inni ystyried ymhellach a, lle bo angen, gweithio gyda Llywodraeth y DU ar fesurau i Gymru mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent masnachol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Felly, nid argymhellir yr opsiwn hwn.

Opsiwn 3: Gwneud Rheoliadau i estyn y warchodaeth am ychydig o dan chwe mis arall tan 25 Mawrth 2022.

Byddai Opsiwn 3 yn rhoi rhagor o amser i fusnesau Cymru adfer wrth i'r economi wella, ac felly i gryfhau eu gallu i dalu eu rhent. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu dull gofalus ac ystyriol ar gyfer llacio'r cyfyngiadau ar yr economi. Er bod Cymru ar lefel rhybudd sero ar hyn o bryd, a chaniateir i bob busnes weithredu, dim ond ar 7 Awst 2021 y daeth y lefel hon i rym, ac felly bydd yn cymryd amser i lawer o fusnesau adfer nes eu bod mewn sefyllfa lle y gallant dalu rhent.

Mae'r sector a'r farchnad eiddo masnachol yn chwarae rhan bwysig yn yr economi ac wrth cyflenwi a darparu'r seilwaith hwnnw sy'n hanfodol i fusnesau,

sef eiddo masnachol, lle y gall busnesau weithredu a thyfu. Felly, mae'n bwysig cydnabod anghenion y landlordiaid a'r fusnesau sy'n denantiaid Nid yw'r warchodaeth a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn ystod y cyfnod perthnasol yn dileu'r gofyniad i dalu'r rhent, ond mae'n atal hawl landlord i gymryd camau fforffedu am beidio â thalu'r rhent yn ystod y cyfnod perthnasol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ymdrin ar wahân â dyledion rhent masnachol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig, a chyflwyno system lle bydd yn ofynnol i landlordiaid a thenantiaid gytuno ar y ffordd yr ymdrinnir ag yr ôl-ddyledion. Lle nad yw landlordiaid a thenantiaid yn gallu cytuno, rhaid iddynt ymgymryd â phroses gyflafareddu rhwymol i sicrhau y gwneir cytundeb sy'n rhwymo mewn cyfraith rhwng y partion y mae'n rhaid iddynt lynu ato. Deellir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y sesiwn Seneddol hon yn y DU.

Ers cyhoeddiad Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dadansoddi'r cynigion i ddeall y goblygiadau i Gymru a busnesau Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu'r sefyllfa yn ystod y cyfnod hwn, a byddwn yn gweithio i ystyried ac wedyn, lle bo angen, gweithredu ateb ar gyfer Cymru mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent sydd wedi cronni yn ystod y pandemig.

Er mwyn cefnogi trafodaethau rhwng tenantiaid a landlordiaid ymhellach, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd ei bod:

- Wedi styn y warchodaeth bresennol ar gyfer tenantiaid masnachol rhag cael eu troi allan tan 25 Mawrth 2022 yn Lloegr, oni bai bod deddfwriaeth yn cael ei phasio cyn hyn.
- O 24 Mehefin, wedi estyn y cyfyngiadau ar adennill ôl-ddyledion rhent masnachol (CRAR), fel na ellir gweithredu i adennill ôl-ddyledion rhent masnachol nes bod o leiaf 554 diwrnod heb dderbyn rhent wedi mynd heibio.
- Wedi estyn y cyfyngiadau sy'n atal cyflwyno deiseb dirwyn i ben ar sail cais statudol wedi'i weithredu drwy Ddeddf Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol 2020 tan 30 Medi 2021.

Wrth argymhell Opsiwn 3, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod sefyllfa landlordiaid, fel buddsoddwyr a darparwyr seilwaith busnes hanfodol. Bydd darpariaethau Opsiwn 3 yn parhau i roi landlordiaid o dan anfantais wrth negodi trefniadau gohirio rhent er mwyn lleddfu sefyllfa bresennol tenantiaid, wrth ar yr un pryd geisio diogelu eu hasedau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd mesurau eraill ar gael i landlordiaid. Er enghraifft, drwy ddiwygiadau dilynol i Reoliadau Meddiannu Nwyddau 2013, bydd nifer y dyddiau y mae'n rhaid iddynt fynd heibio heb dderbyn rhent cyn y gellir cymryd camau i adennill ôl-ddyledion rhent masnachol yn parhau i fod yn 554 diwrnod.

Bydd estyn y "cyfnod perthnasol" at ddibenion adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 mewn perthynas â Chymru tan 25 Mawrth 2022 yn rhoi'r un lefelau o

warchodaeth yn hyn o beth i fusnesau Cymru â'r rhai yn Lloegr, a bydd yn helpu busnesau Cymru i adfer wrth i'r economi wella. Bydd hefyd yn rhoi'r hyn y credir ei fod yn ddigon o amser i Lywodraeth Cymru barhau i weithio i ystyried ac wedyn, lle bo angen, gweithredu mesurau mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent masnachol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig yng Nghymru. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried ac i ddatblygu eu cynigion ymhellach

6. Ymgynghoriad

O ystyried pa mor ddiweddar yr ydym wedi cysylltu â rhanddeiliaid, ac o ystyried natur eu hymatebion, nid ydym wedi trafod ymhellach â rhanddeiliaid yn yr achos hwn. Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu i ddeall yn well yr effaith y mae'r warchodaeth wedi'i chael ar denantiaid masnachol a landlordiaid yng Nghymru yn flaenorol, ac ar y cyfan roedd yr adborth yn debyg ym mhob cylch. Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Bwriadwyd i'r darpariaethau fod yn fesur brys, tymor byr.
- Mae'r moratoriwm yn dechrau cael effaith andwyol ar landlordiaid masnachol.
- Mae'n debygol bod estyn y moratoriwm wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol, gydag ôl-ddyledion rhent sydd wedi cronni yn rhoi busnesau mewn dyled sylweddol, y gellid ei alw i mewn ar fyr rybudd.
- Mae'n bwysig, p'un a ydym yn caniatáu i'r gwarchodaethau ddod i ben neu'n eu hadnewyddu, y gwneir hyn fel pecyn a'i fod yn seiliedig ar drafodaethau agos ar draws Llywodraethau Cymru a Llywodraethau'r DU.
- Gellir disgwyl i landlordiaid gymryd gamau llym mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent os yw'r moratoriwm yn cael ei godi. Ar gyfer busnesau sy'n ymdrin ag effeithiau gorfod cau, nad oes ganddynt ffordd o greu incwm, mae talu rhent yn mynd yn fwyfwy anodd.
- Mae'n rhesymol parhau i ddarparu cymorth ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt nes eu bod yn gallu aildechrau masnachu fel arfer.
- Mae'n debyg mai ôl-ddyledion rhent masnachol yw'r pryder sylweddol olaf i fusnesau o ganlyniad i'r pandemig.
- Y canlyniad gwaethaf fyddai "diben clogwyn" pan fydd pob gwarchodaeth i denantiaid yn cael ei thynnu'n ôl yn sydyn heb ddim i'w disodli.

Bydd y pryderon wedi'u codi gan randdeiliaid yn ganolog i ddatblygu safbwyntiau polisi, a byddant yn llywio rhagor o drafodaethau â Llywodraeth y DU wrth inni weithio i ddod o hyd i ateb addas i Gymru.

7. Asesu'r Gystadleuaeth

Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo'r Gystadleuaeth, canfuwyd na fydd unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

8. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae effaith y Rheoliadau wedi'i chyfyngu i gyfnod penodol, a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer diwedd yr estyniad ar 25 Mawrth 2022.

Mesur y data

Tabl 1: Y sampl a chyfraddau ymateb ar gyfer Camau 33, 34 a 35 yr Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes

Cam	1 Gorffennaf 2021 Cam Cyhoeddi 33	15 Gorffennaf 2021 Cam Cyhoeddi 34	29 Gorffennaf 2021 Cam Cyhoeddi 35
Sampl	38,621	38,573	38,763
Ymateb	9,645	9,058	9,036
Cyfradd	25.0%	23.5%	23.3%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Yr Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes

Nodiadau

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar yr ymatebion i'r Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes gwirfoddol sy'n cael ei gynnal bob wythnos, sy'n dangos barn busnesau ar berfformiad ariannol, y gweithlu, prisiau, masnach a chydnerthedd busnes. Roedd Cam 35 o'r Arolwg yn fyw ar gyfer y cyfnod rhwng 12 a 25 Gorffennaf 2021. Ar gyfer cwestiynau ynglŷn â'r pythefnos diwethaf, gofynnwyd i fusnesau am eu profiad yn ystod y cyfnod cyfeirio rhwng 28 Mehefin ac 11 Gorffennaf 2021. Mae [cwestiynau'r arolwg](#) ar gael.

Cwmpas

Mae'r Arolwg Busnes Misol yn cwmpasu'r DU ar gyfer cynhyrchiant, ond dim ond Prydain Fawr ar gyfer gwasanaethau. Mae'r Mynegai Gwerthiannau Manwerthu ac Adeiladu yn canolbwyntio ar Brydain Fawr. Felly, bydd yr Arolwg Dealltwriaeth ac Amodau Busnes yn cynnwys y DU ar gyfer y diwydiannau cynhyrchu, ond Prydain Fawr yn unig ar gyfer yr elfennau eraill o'r economi sy'n rhan o'r arolwg.

Y diwydiannau sy'n cael eu hystyried yw:

- gwasanaethau anariannol (gan gynnwys gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, cyfathrebu, gweinyddol, trafnidiaeth, llety a bwyd, iechyd preifat ac addysg, a gwasanaethau adloniant)
- dosbarthu (gan gynnwys manwerthu, cyfanwerthu a'r sector moduron)
- cynhyrchu (gan gynnwys gweithgynhyrchu, echdynnu olew a nwy, cynhyrchu a chyflenwi ynni, a rheoli dŵr a gwastraff)

- adeiladu (gan gynnwys peirianeg sifil, adeiladu tai, datblygu eiddo a chrefftwyr adeiladu arbenigol fel plymwyr, trydanwyr a phlastrwyr)

Mae'r diwydiannau canlynol wedi'u heithrio o'r arolwg:

- amaethyddiaeth
- gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn
- darparu iechyd ac addysg i'r cyhoedd
- cyllid ac yswiriant.